COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 1af o CHWEFROR 2021 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair),Alan Lewis,Ian Evans,Tyssul Evans,Linda Williams,Caroline Williams,Geraint Rosser,Tracey James a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Meic Bowen,Geoff Hewitt ac Aled Williams.

2523 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Dymunwyd adferiad buan i Margaret Jones, gwraig Heddwyn a oedd yn dal i fod yn Ysbyty Glangwili.

2524 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 11/01/2021 fel rhai cywir.

2525 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2501 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb pellach oddiwrth y Cyngor Sir
Tud 1. Cofnod Rhif 2501- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.
Tud 1. Cofnod Rhif 2501 – Cofeb Rhyfel Pontiets – Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach.
Tud 1. Cofnod Rhif 2501 - Parc Pontiets - Gobeithir symud ymlaen a'r gwaith angenrheidiol o fewn y mis os bydd y tywydd yn caniatáu.
Tud 1. Cofnod Rhif 2501 - Parc Meinciau – Mae'r gwaith angenrheidiol wedi ei gwblhau.
Tud 3. Cofnod Rhif 2520 – Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymateb pellach.
Tud 3. Cofnod Rhif 2521 – Glanhau/Golchi Ceir – Heol y Meinciau,Pontiets – Mae'r mater yn nwylo'r Heddlu.
Tud 3. Cofnod Rhif 2522 - Cysgodfa Bys Crwbin - Mae posteri wedi eu gosod yn y Gysgodfa a'r Heddlu yn cadw golwg ar y sefyllfa.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2526 Urdd Gobaith Cymru – Sir Gaerfyrddin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

2527 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Yswiriant y Parc – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £336.02.

Cynghorwr Caroline Williams yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2528 Eglwys Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2529 Neuadd Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

Caroline yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2530 Meinciau Short Mat Bowls - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2531 Carway Short Mat Bowls – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2532 Bethel Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2533 Clwb Rygbi Pontiets – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £950.

Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2534 Côr Merched Glannau'r Gwendraeth - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2535 Meinciau Sports and Social Club – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

2536 Neuadd Meinciau – Safle Ail-gylchu – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

2537 Seindorf Arian Crwbin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2538 Banc Bwyd Pembre a Phorth Tywyn - Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2539 Cyngor Sir Gar – Cau Hewl C2071 dros dro,Nant y Caws i Landdarog – Nodwyd y Llythyr.

2540 Cyngor Sir Gar – Twmpathau Hewl,Carwe – Dim gwrthwynebiad i'r cynllun.

2541 Cyngor Sir Gar – Cynllun 20 Milltir yr Awr ,Carwe – Dim gwrthwynebiad i'r cynllun.

2542 Cyngor Sir Gar - Llwybr Cyhoeddus FP 30/120 - Estyniad Amser - Dim gwrthwynebiad i'r cynllun.

2543 Llywodraeth Cymru – Llunio a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2020 – 2021 – Nodwyd y Llythyr.

2544 Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda - Cais am amserlen Cyfarfodydd y Cyngor - Gofynnwyd i'r Clerc i ddanfon y manylion gan nodi bod ein cyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

2545 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Caniatâd mynediad cyhoeddus i gopïau o'n gwefan - Rhoddwyd caniatâd i'r Llyfrgell Genedlaethol.

Ceisiadau Cynllunio

2546 a) Rhif y Cais – PL/01151 – Bronawel,Pontantwn – Estyniad a Garej – Dim Gwrthwynebiad

Gwaharddiad y Cyhoedd

2547 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2548 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Ionawr 2021. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2549 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Ionawr)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ionawr)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Ionawr)

ch) HMRC (Treth)- £89.40 (Mis Ionawr)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Ionawr)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Ionawr)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Ionawr)- £182.00
f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Ionawr) - £13.81
ff) Marcus Dininno – Gwaith ym Marc Meinciau - £100.00
g) Dwr Cymru – Toiledau'r Meinciau - £60.18
ng) Glanhawyr Cysgod fannu Bys - 5 * £200 = £1000.00

Cyfarfod nesaf:- 1af o Fawrth 2021

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……